# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)27-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 19 Hydref 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Rheoli Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes
Llinos Madeley, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### BC(3)26-10 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 12 Hydref 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)27-10(p1)

3.1 Rhoddodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wybod i'r Pwyllgor Busnes y byddai'n gwneud datganiad: Taith "Mae'r Gymuned yn Cyfri" ddydd Mawrth.

3.2. Cytunodd y Pwyllgor na fydd y cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth na dydd Mercher yn digwydd cyn 5.00pm.

3.3. Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 5 a 6 Hydref 2010.

#### Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)27-10(p2)

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)27-10(p3)

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ad-drefnu dadl fer Jonathan Morgan (NDM4550 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd: Democratiaeth ar Waith?) ar 3 Tachwedd 2010.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Pwyllgorau

#### (i) Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Cais i gynnal cyfarfod ffurfiol ddydd Mawrth 7 Rhagfyr – BC(3)27-10(p4)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i gynnal cyfarfod ffurfiol ar brynhawn dydd Mawrth, 7 Rhagfyr 2010.

#### (ii) Gohebiaeth gan Alun Davies ynglyn ag S4C

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i rannu cais pellach Alun Davies ynglyn â chraffu ar S4C â'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant o ran cwrteisi, a chytunodd i ymchwilio gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig a fyddai modd i'r Aelodau gydweithio â hwy ar eu hymchwiliad.

## 5. Busnes arall

**(i) Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog: Pwyllgorau – BC(3)27-10(p5a)**

**Atodiad A – Tabl o Newidiadau – BC(3)27-10(p5b)**

**Atodiad B – Rheolau Sefydlog Diwygiedig – BC(3)27-10(p5c)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur a oedd yn cynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog mewn cysylltiad â Phwyllgorau. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau gyda'r bwriad o'i ystyried ymhellach yn ail gyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor Busnes ar 2 Tachwedd.

**(ii) Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol – Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog – BC(3)27-10(p6)**

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ynghylch yr amserlen ar gyfer adolygu'r Rheolau Sefydlog ac yn gofyn bod pwyllgorau'n cael rhagor o gyfle i ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor Busnes, cyn y bo'r gwelliannau'n cael eu rhoi gerbron y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai pob ymgynghori fod drwy'r grwpiau.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**